



Pwysu a chydbwysu

Byddwch angen:

- 2 gwpan papur/plastig
- 2 ddarn o liny (tua 30cm yr un)
- Cambren (hanger) dillad (bydd un sydd â hicynnau'n gweithio'n well)

Dull:

- Gwthiwch ddau dwll (un bob ochr) ym mhob cwpan
- Cymerwch ddarn o liny a rhoi un pen drwy dwll yn y gwpan a'i glymu
- Cymerwch y pen arall a gwnewch yr un fath ar yr ochr arall
- Ailadroddwch gyda'r gwpan arall
- Dyma'r 'bwcedi'

DYSGU DRWY CHWARAE - Pwyso a chydbwysu

- Cymerwch y cambren (bydd un plastig, metel neu bren yn gweithio) a hongian pob bwced ar bob pen o'r gambren
- Os nad oes yna ricyn ar eich cambren defnyddiwch llinyn ychwanegol i glymu'r bwcedi iddo
- Dylai'r bwcedi fod ar yr un lefel
- Os nad ydynt, addaswch y llinyn nes byddant yn lefel
- Gadewch i'ch plentyn addurno'r bwcedi ond peidiwch â chlymu unrhyw beth trwm neu ni fydd y glorian yn gweithio'n iawn

Defnyddio'r glorian:

- Nawr rhowch y glorian i hongian oddi ar rywbeth - beth am geisio eu rhoi ar ddolen drws?
- Helpwch eich plentyn i chwilio am bethau i'w pwyso - beth am roi cynnig ar eu hoff deganau bach, pethau o'r

ardd neu ffrwythau fel mefus neu rawnwin?

Manteision y gweithgaredd hwn:

- Mae'n annog cysyniad mathemateg fel cydbwysu a didoli
- Gofynnwch i'ch plentyn ddisgrifio'r canlyniadau. Mae hyn yn eu hannog i ddefnyddio geiriau disgrifio a datblygu eu sgiliau iaith



RHYBUDD:

Mae angen goruchwyliaeth fanwl wrth chwarae gyda llinyn!